**YCyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth**

**Penodi Cadeirydd 2025**

**Ffurflen wybodaeth**

Cyn llenwi'r ffurflen hon, darllenwch y pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr a gwnewch yn siŵr eich bod yn bodloni'r gofynion cymhwysedd ac nad ydych wedi'ch gwahardd rhag gwneud cais.

Os oes angen unrhyw addasiadau rhesymol arnoch, cysylltwch â Rhiannon Smith yn rsmith@hunter-healthcare.com. Mae'r ffurflen wybodaeth hon ar gael mewn fformatau eraill ar gais, megis braille neu brint bras.

**Sut i wneud cais**

Bydd angen:

- **Datganiad yn nodi pam eich bod yn addas ar gyfer y rôl** (dim mwy na dwy dudalen). Gwnewch yn siŵr eich bod yn dweud sut rydych yn bodloni'r meini prawf a nodir ym mhecyn briffio'r ymgeisydd.
- **Eich CV** (dim mwy na thair tudalen)
- **Y ffurflen wybodaeth hon (gan gynnwys ffurflen monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth) wedi'i llenwi a'i llofnodi gennych chi**

**Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 12:09 canol dydd, dydd Llun 25 Tachwedd 2024.**

Ni allwn ystyried ceisiadau a ddaw i law ar ôl yr amser hwn.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau cychwynnol ynghylch yr uchod neu os hoffech ragor o wybodaeth am y broses ddethol a'r rôl, cysylltwch â Rhiannon Smith at rsmith@hunter-healthcare.com.

| **Adran 1 – Amdanoch chi** | |
|---|---|
| **Yr wyf yn (ticiwch y blwch priodol):**<br>**☐ Ymgeisydd lleyg**     **☐ Ymgeisydd cofrestredig**<br><br>**Rhowch eich enw isod**<br><br>**Os ydych yn Aelod Cofrestredig rhowch eich enw fel y'i cofnodwyd ar gofrestr yr NMC.**<br><br>**Teitl:** | |
| **Enw(au) cyntaf:** | **Cyfenw(au):** |
| | |
| **Ar gyfer ymgeiswyr Cofrestredig yn unig:**<br>**PIN cofrestru NMC:**<br>***Sylwch na allwn brosesu'ch cais heb hwn.*** | |
| **Ym mha wlad ydych chi'n <u>byw</u> yn gyfan gwbl neu'n bennaf?**<br><br>(Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban neu Gymru) | **Ym mha wlad ydych chi'n <u>gweithio</u> yn gyfan gwbl neu'n bennaf?**<br><br>(Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban neu Gymru) |
| **Cadarnhewch fod gennych yr hawl i fyw a gweithio yn y DU**<br><br>**Sylwch, os byddwch yn llwyddiannus, bydd angen i ni weld tystiolaeth o hyn** | **Dileu fel y bo'n briodol**<br><br>**Oes**<br><br>**Nac oes** |
| **Cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth:** | **Cyfeiriad cartref, os yw'n wahanol:** |
| **Rhif cyswllt a ffefrir:** | **Rhif cyswllt amgen:** |
| **Cyfeiriad e-bost a ffefrir:** | **Dywedwch sut y byddai'n well gennych i ni gysylltu â chi, drwy e-bost neu dros y ffôn?** |

| | |
|---|---|
| | |
| **Nodwch ble clywsoch chi am y rôl hon:** | |

| Adran 2 – Canolwyr | |
|---|---|
| Rhowch enw, cyfeiriad, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost dau ganolwr proffesiynol. Dylai o leiaf un o'ch canolwyr fod wedi gweithio gyda chi ar lefel Bwrdd. Dim ond os byddwch yn cyrraedd y rhestr fer y byddwn yn mynd at eich canolwyr. ***Sylwch y byddwn yn cymryd tystlythyrau cyn y cyfweliad – sicrhewch fod eich canolwyr yn ymwybodol ac yn gallu ymateb.*** | |
| **Canolwr 1** | |
| Enw: | |
| Cyfeiriad: | |
| Rhif cyswllt: | |
| Cyfeiriad e-bost: | |
| Ym mha rinwedd a thros ba gyfnod o amser mae'r unigolyn hwn wedi'ch adnabod chi? | |
| **Canolwr 2** | |
| Enw: | |
| Cyfeiriad: | |
| Rhif cyswllt: | |
| Cyfeiriad e-bost: | |
| Ym mha rinwedd a thros ba gyfnod o amser mae'r unigolyn hwn wedi'ch adnabod chi? | |

| **Adran 3 – Swyddi blaenorol wedi'u dal** |
|---|
| Mae angen i chi ddweud wrthym am unrhyw benodiadau gweinidogol neu benodiadau eraill gan y Llywodraeth a gynhaliwyd ar hyn o bryd neu yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Cynhwyswch fanylion llawn unrhyw benodiad o'r fath, cyfnod y penodiad a'r tâl blynyddol neu'r ffi ddyddiol a dalwyd.<br><br>**Yn ystod y pum mlynedd diwethaf a ydych wedi cynnal unrhyw un o'r canlynol?**<br><br>• **Unrhyw benodiad a wnaed gan neu ar ran Gweinidogion neu unrhyw benodiad cyhoeddus arall (gan gynnwys unrhyw rôl ar unrhyw gorff cyhoeddus neu GIG).**<br><br>• **Unrhyw rôl y Llywodraeth, rôl bwrdd iechyd a/neu ofal cymdeithasol neu rolau rheoleiddio. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, rolau yn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Gogledd Iwerddon neu'r Alban; unrhyw rôl sy'n gweithio i'r pedwar Prif Swyddog Nyrsio yn unrhyw un o'r pedair gwlad, neu i gyrff megis GIG Lloegr, NHS Education Scotland, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Yr Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd, Gogledd Iwerddon neu'r Comisiwn Ansawdd Gofal.**<br><br>**Ydw** ☐<br>**Nac ydw** ☐<br><br>Os ydych, rhowch fanylion isod. |

| | | |
|---|---|---|
| **1. Penodiad neu rôl:** | | Corff / sefydliad: |
| O: | I: | Tâl / lwfans: |
| **2. Penodiad neu rôl:** | | Corff / sefydliad: |
| O: | I: | Tâl / lwfans: |
| **3. Penodiad neu rôl:** | | Corff / sefydliad: |
| O: | I: | Tâl / lwfans: |

## Adran 4 – Sicrhau hyder y cyhoedd

### Adran 4a – Hanes proffesiynol a phersonol

**Cyn ateb**

- **darllenwch yn ofalus y gofynion cymhwysedd a'r seiliau dros anghymhwyso a fyddai'n eich eithrio rhag cael eich penodi a nodir yn adran 5 cyn i chi gwblhau'r adran ganlynol.**
- **meddyliwch hefyd am eich presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol neu unrhyw wybodaeth arall amdanoch a allai fod yn gyhoeddus.**

A oes unrhyw beth am eich:

- hanes proffesiynol neu bersonol;
- Ymgeiswyr Cofrestredig yn unig: addasrwydd i ymarfer (dylech gynnwys unrhyw ymchwiliadau neu achosion sy'n ymwneud â'ch addasrwydd i ymarfer gan yr NMC);
- cysylltiad â sefydliad arall neu unrhyw un sy'n agos atoch (er enghraifft aelod o'r teulu, partner busnes)

a allai, o'i ddwyn i'r parth cyhoeddus, achosi embaras neu danseilio hyder y cyhoedd yn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, neu reoleiddio nyrsio a bydwreigiaeth?

**Oes** ☐

**Nac oes** ☐

**Os atebwch yn gadarnhaol, efallai na fydd y materion hyn yn ein hatal yn awtomatig rhag ystyried eich cais ond efallai y bydd angen trafod y materion gyda chi ar wahanol adegau yn ystod y broses ymgeisio neu yn ystod y cam rhagarweiniol neu'r cyfweliad terfynol.**

Gallai methu â datgelu gwybodaeth o’r fath arwain at derfynu’ch cais neu eich penodiad.

Os atebwch yn gadarnhaol, neu os ydych yn ansicr, rhowch fanylion isod gan gynnwys dyddiadau lle bo'n berthnasol.

**Adran 4b – Gwrthdaro posibl neu wrthdaro canfyddedig ynghylch buddiannau neu deyrngarwch**

**Ystyriwch yn ofalus a oes gennych chi, neu aelod agos o'ch teulu, unrhyw fuddiannau proffesiynol, busnes neu bersonol a allai fod yn berthnasol i waith y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, a allai arwain at wrthdaro buddiannau neu deyrngarwch gwirioneddol neu ganfyddedig a allai achosi amau eich uniondeb neu annibyniaeth.**

Mae gwrthdaro buddiannau neu wrthdaro buddiannau canfyddedig fel arfer yn codi lle naill ai:

- mae budd ariannol neu fudd arall posibl yn uniongyrchol i chi, neu'n anuniongyrchol i rywun sydd â chysylltiad agos â chi, drwy eich aelodaeth o'r Cyngor; neu
- gallai dyletswydd neu deyrngarwch sy'n ddyledus gennych i sefydliad neu berson arall wrthdaro neu gystadlu â'ch rôl fel aelod o'r Cyngor.

**Darllenwch y canllawiau ar wahân ar wrthdaro buddiannau yn ofalus iawn cyn llenwi'r adran hon. Os oes angen unrhyw gyngor neu arweiniad pellach arnoch, codwch hyn cyn i chi lenwi'r ffurflen gyda Rhiannon Smith yn rsmith@hunter-healthcare.com, a fydd yn ymgynghori â'r NMC yn ôl yr angen.**

**Sylwch na fydd unrhyw fuddiannau a ddatgenir o reidrwydd yn rhagfarnu'ch cais. Mae'n bosibl y bydd angen i ni drafod unrhyw wrthdaro posibl gyda chi a/neu efallai y bydd y Panel Dethol yn archwilio buddiannau yn y cyfweliad.**

A oes gennych unrhyw fuddiannau gwirioneddol neu ganfyddedig a allai fod yn berthnasol i'r penodiad hwn?

**Oes** ☐

**Nac oes** ☐

Os oes, rhowch fanylion isod gan gynnwys dyddiadau lle bo'n berthnasol.

| Adran 5 – Meini prawf cymhwysedd ac anghymhwyso |
|---|
| **Cadarnhewch eich bod yn gymwys i gyflawni rôl aelod o'r Cyngor ac nad ydych wedi'ch anghymhwyso. (fe ddaw'r cwestiynau isod o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (Cyfansoddiad) 2008) a deddfwriaeth elusennau.**<br><br>**Os ydych yn ymgeisydd lleyg, cwblhewch adran 5.1. Os ydych yn Ymgeisydd Cofrestredig, cwblhewch adran 5.2.** |
| **Adran 5.1 Ymgeiswyr lleyg**<br>Cadarnhewch nad ydych, ac nad ydych erioed wedi bod yn nyrs gofrestredig a/neu’n fydwraig gofrestredig, neu, yn Lloegr, yn gydymaith nyrsio cofrestredig.<br>Cadarnhewch nad oes gennych gymwysterau a fyddai'n rhoi'r hawl i chi wneud cais i gofrestru. |

| | | |
|---|---|---|
| 1 | A allwch gadarnhau nad ydych ac nad ydych erioed wedi bod yn nyrs a/neu'n fydwraig gofrestredig, neu, yn Lloegr, yn gydymaith nyrsio cofrestredig, ac nad oes gennych gymwysterau a fyddai'n rhoi'r hawl i chi wneud cais i gofrestru?<br><br>Atebwch gwestiynau 2-12 isod i gadarnhau eich bod yn gymwys i gyflawni rôl aelod o'r Cyngor ac nad ydych wedi'ch gwahardd.<br><br>Sylwch, gallai ateb 'Ydw' i unrhyw un o gwestiynau 2-12 olygu nad ydych yn gymwys. | Nodwch Ydw neu Nac ydw |
| 1 | A ydych ar unrhyw adeg wedi bod yn destun unrhyw ymchwiliad neu achos yn ymwneud â'ch addasrwydd i ymarfer gan unrhyw gorff trwyddedu, a'r canlyniad terfynol oedd:<br><br>• eich dileu o gofrestr sy'n cael ei chadw gan y corff trwyddedu neu benderfyniad a gafodd yr effaith o'ch atal rhag ymarfer y proffesiwn sydd wedi'i drwyddedu neu ei reoleiddio gan y corff trwyddedu.<br><br>• eich atal o gofrestr a ddelir gan y corff trwyddedu ac nad yw'r ataliad hwnnw wedi'i derfynu.<br><br>• penderfyniad a gafodd yr effaith o ganiatáu i chi ymarfer y proffesiwn hwnnw gydag amodau yn unig ac nad yw'r amodau hynny wedi'u codi. | |
| 2 | A oes gennych euogfarn heb ei disbyddu am ddirmyg llys neu am unrhyw droseddau yn ymwneud ag: anonestrwydd neu dwyll; terfysgaeth; gwyngalchu arian; llwgrwobrwyo; torri Gorchymyn neu Gyfarwyddyd y Comisiwn Elusennau o dan adran 77 o Ddeddf Elusennau 2011; camymddwyn mewn swydd gyhoeddus, dyngu anudon, neu wyrdroi cwrs cyfiawnder; neu am gynorthwyo, ceisio neu annog unrhyw un o'r troseddau hyn? | |
| 3 | A oes gennych euogfarn heb ei disbyddu am unrhyw drosedd a oedd yn cynnwys dedfryd o garchar neu gadw? | |
| 4 | A ydych chi, neu a ydych chi ar unrhyw adeg wedi cael eich cynnwys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar restr wahardd neu a ydych chi ar unrhyw adeg wedi bod ar y gofrestr troseddwyr rhyw? | |
| 5 | A ydych chi, neu a ydych chi wedi cael eich cynnwys ar unrhyw adeg, gan Weinidogion yr Alban yn y rhestr plant neu'r rhestr oedolion (o fewn ystyr Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf (Yr Alban) 2007)? | |

| | | |
|---|---|---|
| 6<br><br>7<br><br>8<br><br>9<br><br>10<br><br>11<br><br>12 | A ydych chi, neu a ydych chi ar unrhyw adeg wedi bod, yn berson dynodedig o dan ddeddfwriaeth gwrthderfysgaeth benodol?<br><br>A ydych chi ar unrhyw adeg wedi cael eich diswyddo fel cadeirydd, aelod, cynullydd neu gyfarwyddwr unrhyw gorff cyhoeddus ar y sail nad oedd er budd y corff hwnnw nac yn ffafriol i'w reoli'n dda y dylech barhau i dal y swydd honno?<br><br>A ydych chi'n fethdalwr heb ei ryddhau (neu'n destun cyfyngiadau methdaliad neu orchymyn interim) neu'n destun unrhyw drefniant neu compownd heb ei ryddhau gyda'ch credydwyr?<br><br>A ydych wedi cael eich gwahardd rhag gweithredu fel cyfarwyddwr cwmni?<br><br>A ydych chi ar unrhyw adeg wedi cael eich diswyddo rhag bod yn ymddiriedolwr elusen gan y Comisiwn Elusennau, Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban neu'r Llysoedd neu wedi cael eich dileu o reolaeth neu gyfrifoldeb am unrhyw gorff?<br><br>A ydych chi erioed wedi eich cael yn euog o anufudd-dod i orchymyn neu gyfarwyddyd y Comisiwn Elusennau o dan adran 336(1) o Ddeddf Elusennau 2011?<br><br>A oes unrhyw beth a fyddai'n eich atal rhag cael eich dosbarthu fel "person addas a phriodol" o dan Ddeddf Cyllid 2010, ac a yw Cyllid a Thollau EF erioed wedi dyfarnu nad ydych yn "berson addas a phriodol"?<br><br>**Adran 5.2 – Ymgeiswyr cofrestredig** | |
| 1 | A oes gennych gofrestriad cyfredol fel nyrs a/neu fydwraig neu, yn Lloegr fel cydymaith nyrsio gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac yn bwriadu cynnal hyn drwy gydol unrhyw gyfnod yn y swydd, gan gynnwys ailddilysu yn ôl yr angen? | |
| Atebwch gwestiynau 2-15 isod i gadarnhau eich bod yn gymwys i gyflawni rôl aelod o'r Cyngor ac nad ydych wedi'ch anghymhwyso.<br><br>Sylwch, gallai ateb 'Ydw' i unrhyw un o gwestiynau 2-15 olygu nad ydych yn gymwys. | | |
| | | Nodwch Ydw neu Nac ydw |

| | | |
|---|---|---|
| 2 | A ydych ar unrhyw adeg wedi bod yn destun unrhyw ymchwiliad neu achos yn ymwneud â’ch addasrwydd i ymarfer gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth neu unrhyw gorff trwyddedu a gofrestrodd nyrsys neu fydwragedd gerbron y Cyngor, ac yn ystod y cyfnod hwnnw, neu lle roedd y canlyniad terfynol yn golygu:<br><br>• eich bod wedi’ch tynnu oddi ar y gofrestr neu wedi’ch dileu o'r gofrestr (am reswm sy'n gysylltiedig â'ch addasrwydd i ymarfer).<br><br>• bod eich cofrestriad yn y gofrestr wedi'i atal dros dro (gan gynnwys trwy orchymyn atal dros dro interim) ac nad yw'r ataliad hwnnw wedi'i derfynu.<br><br>• bod eich cofrestriad yn y gofrestr wedi'i wneud yn amodol ar eich cydymffurfedd ag unrhyw ofyniad (gan gynnwys gorchymyn amodau ymarfer interim) ac nad yw'r gofyniad hwnnw wedi'i godi.<br><br>• bod eich cofrestriad yn y gofrestr wedi'i anodi yn rhinwedd gorchymyn rhybuddio a bod y gorchymyn hwnnw'n dal mewn grym. | |
| 3 | A ydych ar unrhyw adeg wedi bod yn destun unrhyw ymchwiliad neu achos yn ymwneud â’ch addasrwydd i ymarfer gan unrhyw gorff trwyddedu, a’r canlyniad terfynol oedd:<br><br>• eich dileu o gofrestr a gedwir gan y corff trwyddedu neu benderfyniad a gafodd yr effaith o'ch atal rhag ymarfer y proffesiwn a drwyddedir neu a reoleiddir gan y corff trwyddedu.<br><br>• eich atal dros dro o gofrestr a ddelir gan y corff trwyddedu ac nad yw'r ataliad hwnnw wedi'i derfynu.<br><br>• penderfyniad a gafodd yr effaith o ganiatáu i chi ymarfer y proffesiwn hwnnw yn amodol ar amodau yn unig ac nad yw'r amodau hynny wedi'u codi. | |
| 4 | A oes gennych euogfarn heb ei disbyddu am drosedd yn ymwneud ag anonestrwydd neu dwyll; terfysgaeth; gwyngalchu arian; llwgrwobrwyo; torri Gorchymyn neu Gyfarwyddyd y Comisiwn Elusennau o dan adran 77 o Ddeddf Elusennau 2011; camymddwyn mewn swydd gyhoeddus, dyngu anudon, neu wyrdroi cwrs cyfiawnder; neu am gynorthwyo, ceisio neu annog unrhyw un o'r troseddau uchod? | |

| | | |
|---|---|---|
| 5 | A oes gennych euogfarn heb ei disbyddu am unrhyw drosedd yn y DU a oedd yn cynnwys dedfryd o garchar neu gadw? | |
| 6 | A ydych chi ar unrhyw adeg wedi'ch dyfarnu'n euog o drosedd yn rhywle arall heblaw'r DU ac y byddai eich aelodaeth o'r Cyngor yn debygol o danseilio hyder y cyhoedd yn y broses o reoleiddio nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio? | |
| 7 | A ydych chi neu a ydych chi ar unrhyw adeg wedi'ch cynnwys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar restr wahardd; neu ar y gofrestr troseddwyr rhyw? | |
| 8 | A ydych chi neu a ydych chi ar unrhyw adeg wedi cael eich cynnwys gan Weinidogion yr Alban ar y rhestr plant neu'r rhestr oedolion (o fewn ystyr Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf (Yr Alban) 2007?)? | |
| 9 | A ydych chi neu a ydych chi ar unrhyw adeg wedi bod yn berson dynodedig o dan ddeddfwriaeth gwrthderfysgaeth benodol? | |
| 10 | A ydych chi ar unrhyw adeg wedi cael eich diswyddo fel cadeirydd, aelod, cynullydd neu gyfarwyddwr unrhyw gorff cyhoeddus ar y sail nad oedd er budd y corff hwnnw, nac yn ffafriol i'w reoli'n dda, y dylech barhau i ddal y swydd honno? | |
| 11 | Ydych chi'n fethdalwr nas rhyddhawyd (neu'n destun cyfyngiadau methdaliad neu orchymyn interim) neu'n destun unrhyw drefniant neu gompównd nas rhyddhawyd gyda'ch credydwyr? | |
| 12 | A ydych chi wedi'ch anghymhwyso rhag gweithredu fel cyfarwyddwr cwmni? | |
| 13 | A ydych chi ar unrhyw adeg wedi'ch diswyddo rhag bod yn ymddiriedolwr elusen gan y Comisiynwyr Elusennau, y Comisiwn Elusennau neu'r Llysoedd neu wedi'ch dileu o reolaeth neu gyfrifoldeb unrhyw gorff? | |
| 14 | A ydych chi erioed wedi'ch cael yn euog o anufudd-dod i orchymyn neu gyfarwyddyd y Comisiwn Elusennau o dan adran 336(1) o Ddeddf Elusennau 2011? | |
| 15 | A oes unrhyw beth a fyddai'n eich atal rhag cael eich dosbarthu fel "person addas a phriodol" o dan Ddeddf Cyllid 2010, ac a yw Cyllid a Thollau EF erioed wedi dyfarnu nad ydych yn "berson addas a phriodol"? | |

| Adran 6 – argaeledd | |
|---|---|
| **Cyfweliadau rhagarweiniol**<br>Nodwch isod fanylion yr holl ddyddiadau rhwng 10 – 20 Rhagfyr 2024 yn gynwysedig pan na fyddech ar gael ar gyfer cyfweliad rhagarweiniol rhithwir o tua awr. | |
| Dydw i **ddim ar gael** ar y dyddiadau canlynol: | |
| Sesiynau trafod yn dilyn llunio rhestr fer<br><br>Os cewch eich rhoi ar y rhestr fer, cyn eich cyfweliad terfynol cewch sesiynau trafod anffurfiol gyda'r Weithrediaeth, Aelodau'r Cyngor nad ydynt ar y Panel Dethol, Cadeiryddion Rhwydwaith Staff Prif Weithredwr a chynrychiolwyr cyflogeion Unsain. Bydd y rhain yn digwydd rhwng y dyddiadau isod. Rhowch wybod i ni os oes unrhyw ddyddiadau **na** fyddech ar gael ar eu cyfer. | |
| | **Sylwadau** |
| **Rhwng 15 Ionawr 2024 a 24 Ionawr 2025** | |
| **Cyfweliadau terfynol**<br><br>Bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal yn bersonol yn Llundain.<br><br>Os byddwch ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad cadarnhewch a ydych ar gael i fynychu ar y dyddiad canlynol: | |
| | **Nodwch ydw neu nac ydw** |
| **Dydd Gwener 31 Ionawr 2025** | |
| Os na allwch ddod i gyfweliad terfynol ar y dyddiad uchod neu dim ond ar adegau penodol, rhowch ragor o fanylion yma: | |

| Adran 7 – Addasiadau |
|---|
| **Rydym wedi ymrwymo i wneud addasiadau rhesymol i wneud yn siŵr bod ein prosesau yn hygyrch i bawb, yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Os oes gennych anabledd neu anaf, dywedwch wrthym os oes angen unrhyw addasiadau rhesymol arnoch. Gallai hyn gynnwys derbyn ein gwybodaeth mewn fformat arall (er enghraifft, print bras neu sain).**<br><br>A oes angen unrhyw addasiadau arnoch fel rhan o'r broses ddethol?<br><br>**Oes** ☐ **Nac oes** ☐<br><br>**Os oes**, rhowch fanylion isod:<br><br>Os hoffech drafod unrhyw addasiadau posibl yn fwy manwl, cysylltwch â Rhiannon Smith yn rsmith@hunter-healthcare.com. |

| Adran 8 – Datganiad |
|---|
| Wrth lofnodi'r datganiad hwn:<br><br>• Rwy'n datgan bod y wybodaeth sydd yn y cais hwn yn gyflawn ac yn gywir.<br>• Rwy'n deall y gall fy nghais gael ei wrthod, neu os ydw i wedi cael fy mhenodi y gall fy mhenodiad gael ei ddileu, am gadw manylion perthnasol yn ôl neu roi gwybodaeth ffug.<br>• Rwy'n cadarnhau y byddaf yn hysbysu'r NMC ar unwaith am unrhyw newid mewn amgylchiadau sy'n effeithio ar yr atebion a roddais.<br><br>**Teipiwch eich enw yn y blwch, neu defnyddiwch lofnod electronig os yw ar gael. Nid oes angen i chi argraffu, llofnodi a sganio'r ffurflen gais.** |
| Llofnod: …………………….. |
| Dyddiad:…..././…..././……………….. |
| Enw:…………………………. |

Diolch i chi am gymryd yr amser i gwblhau'r cais hwn. **Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 12:09, 25 Tachwedd 2024**.

Cysylltwch â Rhiannon Smith yn rsmith@hunter-healthcare.com os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat arall.

**Diolch**

**NAWR LLENWCH Y FFURFLEN CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH AR Y DUDALEN NESAF**

## Ffurflen monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

## Cyflwyniad

Atebwch bob cwestiwn trwy glicio yn y blwch priodol. Mae opsiwn ‘gwell gennyf beidio â dweud’ ar gyfer pob un o’r cwestiynau. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol.

**1 Beth yw eich oedran?**

☐ O dan 20 ☐ 21 – 30 ☐ 31 – 40 ☐ 41 – 50

☐ 51 – 55 ☐ 56 – 60 ☐ 61 – 65 ☐ 66 – 70

☐ 71 – 75 ☐ Oedran dros 75 ☐ gwell gennyf beidio â dweud

**2 Beth yw eich rhyw?**

☐ Benyw

☐ Gwryw

☐ Gwell gennyf beidio â dweud

**3 Beth yw eich rhywedd?**

☐ Menyw

☐ Dyn

☐ Arall neu hunan-ddisgrifio …………....

☐ Gwell gennyf beidio â dweud

**4 A yw eich hunaniaeth o ran rhywedd yn cyfateb i’ch rhyw fel y’i cofrestrwyd ar adeg eich geni (neu o fewn 6 wythnos)?**

☐ Ydy

☐ Nac ydy

☐ Gwell gennyf beidio â dweud

**5 Beth yw eich crefydd neu gred?**

- ☐ Dim crefydd
- ☐ Cristnogol (gan gynnwys pob enwad)
- ☐ Bwdhaidd
- ☐ Hindŵaidd
- ☐ Iddewig
- ☐ Mwslemaidd
- ☐ Sicaidd
- ☐ Unrhyw grefydd arall, disgrifiwch ………..
- ☐ Gwell gennyf beidio â dweud

**6 Beth yw eich grŵp ethnig?**

**(a) Gwyn**

☐ Prydeinig, Seisnig, Gwyddelig Gogleddol, Albanaidd neu Gymreig

☐ Gwyddelig

☐ **Sipsi neu deithiwr**

☐ Unrhyw gefndir gwyn arall, nodwch isod
………….

**(b) Du, Affricanaidd, Caribïaidd neu Ddu Prydeinig**

☐ Caribïaidd

☐ Affricanaidd

☐ Unrhyw gefndir Du, Affricanaidd neu Garibïaidd arall, nodwch isod

**(c) Grwpiau ethnig cymysg neu luosog**

☐ Gwyn a Du Caribïaidd

☐ Gwyn a Du Affricanaidd

☐ Gwyn ac Asiaidd

☐ Unrhyw gefndir ethnig cymysg neu luosog arall, nodwch isod
………….

**(d) Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig**

☐ Indiaidd

☐ Pacistanaidd

☐ Bangladeshaidd

☐ Tsieineaidd

☐ Ffilipinaidd

☐ Unrhyw gefndir Asiaidd arall, nodwch isod
…………

**(e) Grŵp ethnig arall**

☐ Arabaidd

☐ Unrhyw grŵp ethnig arall, nodwch isod
………..

**(f) Gwell gennyf beidio â dweud**

☐ Gwell gennyf beidio â dweud

**7 A oes gennych unrhyw gyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol neu afiechydon sy'n parhau neu y disgwylir iddynt barhau 12 mis neu fwy?**

☐ Oes

☐ Nac oes

☐ Gwell gennyf beidio â dweud

**i. Os ateboch oes i C7, a yw unrhyw un o'ch cyflyrau neu afiechydon yn lleihau eich gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd?**

☐ Ydy, llawer

☐ Ydy, ychydig

☐ Ddim o gwbl

☐ Gwell gennyf beidio â dweud

**8 A yw unrhyw rai o'r cyflyrau neu'r afiechydon hyn yn effeithio arnoch chi yn unrhyw un o'r meysydd canlynol?** ***Pwrpas y cwestiwn hwn yw sefydlu'r math o nam(au) rydych yn eu profi ar hyn o bryd o ganlyniad i'ch cyflwr iechyd neu afiechyd. Wrth ateb y cwestiwn hwn, dylech ystyried a yw unrhyw un o'r meysydd hyn yn effeithio arnoch wrth dderbyn unrhyw driniaeth neu feddyginiaeth neu wrth ddefnyddio dyfeisiau i'ch helpu megis cymorth clyw er enghraifft.***

☐ Golwg (er enghraifft dallineb neu ddallineb rhannol)

☐ Clyw (er enghraifft byddardod neu glyw rhannol)

☐ Symudedd (er enghraifft cerdded pellteroedd byr neu ddringo grisiau)

☐ Deheurwydd (er enghraifft, codi a chario gwrthrychau, defnyddio bysellfwrdd)

☐ Dysgu neu ddeall neu ganolbwyntio

☐ Cof

☐ Iechyd meddwl

☐ Stamina neu anadlu neu flinder

☐ Yn gymdeithasol neu'n ymddygiadol (er enghraifft yn gysylltiedig ag awtistiaeth neu anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD))

☐ Arall (nodwch)

………..

☐ Dim un o'r uchod

☐ Gwell gennyf beidio â dweud

**9 Ydych chi'n gofalu am, neu'n rhoi unrhyw help neu gefnogaeth i, unrhyw un oherwydd bod ganddyn nhw gyflyrau neu afiechydon corfforol neu feddyliol hirdymor, neu broblemau sy'n ymwneud â henaint?** ***Peidiwch â chynnwys unrhyw beth a wnewch fel rhan o'ch cyflogaeth â thâl.***

☐ Nac ydw

☐ Oes, 9 awr yr wythnos neu lai

☐ Oes, 10-19 awr yr wythnos

☐ Oes, 20-34 awr yr wythnos

☐ Oes, 35-49awr yr wythnos

☐ Oes, 50 awr neu fwy yr wythnos

☐ Arall

☐ Gwell gennyf beidio â dweud

**10 Pa un o'r opsiynau canlynol sy'n disgrifio'ch cyfeiriadedd rhywiol orau?**

☐ Deurywiol

☐ Hoyw neu lesbiaidd

☐ Heterorywiol neu syth

☐ Arall (nodwch)

………..

☐ Gwell gennyf beidio â dweud

**11 Beth oedd galwedigaeth prif enillwr eich cartref pan oeddech chi tua 14 oed?**

☐ **Galwedigaethau proffesiynol modern a thraddodiadol** megis: athro, nyrs, ffisiotherapydd, gweithiwr cymdeithasol, cerddor, swyddog heddlu (ringyll neu uwch), dylunydd meddalwedd, cyfrifydd, cyfreithiwr, ymarferydd meddygol, gwyddonydd, peiriannydd sifil/mecanyddol

☐ **Rheolwyr neu weinyddwyr uwch, canol neu iau** megis: rheolwr cyllid, prif weithredwr, perchennog busnes mawr, rheolwr swyddfa, rheolwr manwerthu, rheolwr banc, rheolwr bwyty, rheolwr warws

☐ **Galwedigaethau clerigol a chanolradd** megis: ysgrifennyddes, cynorthwyydd personol, asiant canolfan alwadau, gweithiwr clerigol, nyrs feithrin

☐ **Galwedigaethau technegol a chrefft** megis: mecanig modur, plymwr, argraffydd, trydanwr, garddwr, gyrrwr trên

☐ **Galwedigaethau llaw a gwasanaethu arferol, lled-arferol** megis: gweithiwr post, gweithiwr peiriant, gwarchodwr diogelwch, gofalwr, gweithiwr fferm, cynorthwyydd arlwyo, cynorthwyydd gwerthu, gyrrwr HGV, glanhawr, porthor, paciwr, llafurwr, gweinydd/gweinyddes, staff bar

☐ **Di-waith tymor hir** (wedi hawlio budd-dal/iadau diweithdra am fwy na blwyddyn)

☐ **Perchnogion busnesau bach** a gyflogodd lai na 25 o bobl megis: perchnogion siopau cornel, cwmnïau plymio bach, perchennog siop adwerthu, perchennog bwyty neu gaffi sengl, perchennog tacsi, perchennog garej

☐ **Arall** megis: wedi ymddeol, nid yw'r cwestiwn hwn yn berthnasol i mi, wn i ddim

☐ Gwell gennyf beidio â dweud

**Diolch i chi am lenwi'r ffurflen hon.**